



Eich cyf/Your ref P-05-1105
Ein cyf/Our ref
KW/07173/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

12 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 16 Rhagfyr ynghylch y ddeiseb a gafodd y Pwyllgor, sydd wrthi'n casglu llofnodion, sef Deiseb P-05-1105: Gwnewch hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn orfodol mewn ysgolion.

Mae sgiliau achub bywyd a gweithdrefnau cymorth cyntaf brys fel CPR yn amlwg yn bwysig, ac rydym yn awyddus i godi ymwybyddiaeth o'r sgiliau hyn ac rwy'n annog pawb, o bob oed, i ddysgu cymorth cyntaf.

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae hyn yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i nod yw sicrhau bod addysg a chymorth mewn perthynas â materion fel iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael eu darparu i holl bobl ifanc Cymru. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles wedi'i lunio i gefnogi datblygiad hanfodion iechyd a lles dysgwyr, gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol lywio cynnwys penodol, fel y bo'n briodol i'w dysgwyr.

Mae ymarferwyr sy'n datblygu canllawiau'r Maes wedi gweithio'n agos gyda British Heart Foundation, y Groes Goch ac Ambiwlans St John, i ystyried iechyd a diogelwch eraill yn y cwricwlwm newydd. Cyfrannodd y sefydliadau hyn yn uniongyrchol at ddatblygu disgrifiadau o ddysgu o fewn y canllawiau i sicrhau eu bod yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hyn.

Er mwyn cefnogi ysgolion i ddatblygu addysg ym maes Iechyd a Lles yn eu cwricwlwm, mae'r canllawiau'n nodi: *"Dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr asesu a rheoli risg fel y gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Dylai lleoliadau ac ysgolion hefyd ystyried pa strategaethau y gallai fod eu hanawd ar eu dysawr i wrrvd yn ddiogel i aefnogi eraill a allai fod mewn perygl. Gallai hyn gynnwys sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf"*.

O fewn y fframwaith cenedlaethol felly, mater i ysgolion ac ymarferwyr fydd ystyried y ffordd orau o gefnogi dysgwyr i gyflawni'r disgwyliadau hyn a byddwn yn parhau i annog pawb i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddysgu'r sgiliau hyn. Gall y sefydliadau rhanddeiliaid uchod hefyd gefnogi ysgolion gydag adnoddau addas.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education